



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gwella Iechyd y Geg i Bobl Hŷn sy'n Byw mewn Cartrefi Gofal yng Nghymru

Cyflawni'r rhaglen Gwên am Byth dros y cyfnod
o 1 Ebrill 2018 hyd 31 Mawrth 2019

Gwella Iechyd y Geg ar gyfer Pobl Hŷn sy'n byw mewn Cartrefi Gofal yng Nghymru

Darparu'r rhaglen Gwên am Byth o 1 Ebrill 2018 hyd 31 Mawrth 2019

Crynodeb Gweithredol

- Mae 52.3% o gartrefi gofal wedi'u targedu i gymryd rhan yn y cynllun Gwên am byth (GaB).
- Mae 340 o gartrefi wedi'u targedu o gymharu â 229 o gartrefi a dargedwyd y llynedd.
- O'r cartrefi gofal sydd wedi'u targedu, mae 287 yn cymryd rhan lawn ac mae 33 yn cymryd rhan yn rhannol. Nid yw 3 cartref wedi dechrau cymryd rhan eto. Penderfynodd 12 o gartrefi beidio â pharhau a thynnwyd 5 yn ôl gan y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol (GDC) oherwydd diffyg ymgysylltu.
- Mae cynllun gofal y geg yn cael ei ddarparu i 5,670 o breswylwyr.
- Mae tua 7 o staff cyfwerth ag amser llawn yn cael eu cyflogi gan y GDC gan ddefnyddio arian penodol gan Lywodraeth Cymru i ddarparu'r rhaglen, er bod rhai byrddau iechyd wedi defnyddio'u hadnoddau i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r rhaglen ymhellach (gweler tudalen 3).
- Cafwyd adborth cadarnhaol gan staff cartrefi gofal, gofalwyr preswylwyr a staff y GDC sy'n darparu'r rhaglen.
- Mae staff cartrefi gofal yn ymgysylltu â'r rhaglen, ac mae ganddynt farn fwy cadarnhaol ynghylch pwysigrwydd a gwerth gofal ceg da.
- Ceir enghreifftiau o arfer arloesol, er bod rhwystrau i gyflawni'r rhaglen yn parhau.
- Mae rhai GDCau wedi nodi heriau i ehangu'r rhaglen heb staff ychwanegol.
- Nodwyd nifer o gamau nesaf.

Mae'r rhaglen bellach yn rhan annatod o'r rhaglen *Gwella Cartrefi Gofal Cymru* sy'n cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru gyda'r ddarpariaeth o dan arweiniad cynllun gwella Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus Cymru/1000 o Fywydau. Mae'r integreiddio hwn wedi caniatáu i raglen *Gwella Cartrefi Gofal Cymru* elwa ar ddysgu a phrofiad GaB, gan gryfhau GaB ymhellach fel rhan annatod o waith gwella cartrefi gofal cenedlaethol Cymru.

Mae nifer o fyrddau iechyd yn defnyddio staff eraill y GDC a ffynonellau arian eraill i gefnogi'r rhaglen GaB ac mae Llywodraeth Cymru bellach yn disgwyl i'r rhaglen fod ar gael / yn cael ei chynnig i bob cartref gofal i bobl hŷn. Mae'r adroddiad cyfredol hwn yn dangos cynnydd a chanlyniadau da, ac yn cefnogi'r achos dros gynyddu capasiti'r gwasanaeth a sicrhau bod y rhaglen yn cael ei chynnig i bob cartref gofal ar gyfer pobl hŷn.

1. Cyflwyniad

1.1 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gylchlythyr Iechyd Cymru WHC/2015/001 ym mis Chwefror 2015 – *Gwella Iechyd y Geg ar gyfer Pobl Hŷn sy'n byw mewn Cartrefi Gofal yng Nghymru*. Roedd y cylchlythyr yn cynnwys cyfanswm o gyllid rheolaidd blynyddol o £249,750 i'w rannu ar draws 7 bwrdd iechyd. Gellir gweld y cylchlythyr drwy ddilyn y ddolen hon:

<https://gweddi.gov.wales/docs/dhss/publications/150210whc001cy.pdf>

1.2 Nod allweddol y rhaglen yw gwella hylendid y geg a gofal y geg i bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal drwy ddatblygu dull cyson Cymru gyfan o weithredu. Yn y cyd-destun hwn mae 'cartref gofal' yn cynnwys cartrefi nyrsio a chartrefi preswyl i bobl hŷn - gan gynnwys y rhai ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia. Egwyddorion y rhaglen yw y bydd cartrefi gofal yn sicrhau:

- bod polisi gofal ceg cyfoes ar waith;
- bod staff yn cael eu hyfforddi mewn gofal y geg (gan gynnwys yn ystod y cyfnod cynefino) ac mae'r cartref yn cadw cofrestr hyfforddiant;
 - cynhelir asesiad risg o'r geg sy'n arwain at gynllun gofal unigol;
 - mae cynllun gofal y geg yn cael ei gyflawni a'i ddogfennu;
 - mae gan y preswylwyr adnoddau gofal ceg priodol ar gyfer eu cynllun gofal (e.e. brws dannedd a phast dannedd fflworid uchel);
 - mae staff cartrefi gofal yn gwybod pwy yw'r gwasanaethau deintyddol lleol ar gyfer eu preswylwyr; a
 - gofynnir i breswylwyr (a pherthnasau os yw'n briodol) am adborth ar eu gofal ceg
- .

1.3 Dyma'r pedwerydd adroddiad blynyddol ar gyflawni'r rhaglen. Cynghorir darllenwyr i gyfeirio at y trydydd adroddiad blynyddol am fanylion ychwanegol.

1.4 Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys rhai materion perthnasol a ddaeth i'r amlwg ym Mehefin 2019 - yn enwedig adroddiad y Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC) - er bod y data cyflawni ac enghreifftiau o arfer da yn cwmpasu'r cyfnod o Ebrill 1 2018 hyd Mawrth 31 2019.

1.5 Ym mis Mehefin 2019 cyhoeddodd y CQC *Smiling matters: oral health care in care homes*

<https://www.cqc.org.uk/publications/major-report/smiling-matters-oral-health-care-care-homes#case1>

1.6 Mae'r adroddiad yn dangos yr hyn a ganfu'r CQC o adolygiad o gyflwr gofal iechyd y geg mewn cartrefi gofal ledled Lloegr. Mae'r adroddiad yn datgelu diffyg ymwybyddiaeth helaeth o ganllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) ac yn dod i'r casgliad na chefnogir preswylwyr i gynnal a gwella iechyd y geg. Ceir enghreifftiau o ofal ceg gwael iawn i breswylwyr agored i niwed sy'n cynnwys "... menyw ddall, 93 oed â dementia datblygedig yr oedd ei dannedd gosod wedi mynd yn sownd yn ei cheg am eu bod wedi'u gadael i mewn ers wythnosau ac roedd ei deintygig wedi tyfu o'u hamgylch. Aethpwyd â hi i'r adran

ddamweiniau ac achosion brys a bu'n rhaid tynnu'r dannedd gosod trwy lawfeddygaeth."

1.7 Croesawodd y Gymdeithas Brydeinig dros Astudio Deintyddiaeth Gymunedol (BASCD) "yr adolygiad pwysig hwn sy'n tynnu sylw at yr angen parhaus am waith i wella gofal ac urddas sylfaenol i bobl sy'n byw mewn cartrefi gofal yn Lloegr."

1.8 Gwelwyd ymrwymiad gwirioneddol i wella iechyd y geg ymhlith pobl mewn cartrefi gofal o du aelodau BASCD sydd wedi bod yn rhan o ddatblygu'r rhaglenni yn yr Alban a Chymru.

1.9 Croesawodd Cymdeithas Gerontoleg Prydain yr adroddiad hefyd gan nodi "Mae yna raglenni cenedlaethol sy'n cael eu hariannu yng Nghymru (Gwên am Byth) a'r Alban (Caring for Smiles)."

1.10 Bu sylw helaeth yn y cyfryngau cenedlaethol a gwelwyd sylwadau ar gyfryngau cymdeithasol a Twitter yn nodi gwerth rhaglenni iechyd y geg mewn cartrefi gofal yng Nghymru (GaB) a'r Alban (Caring for Smiles) a phwysigrwydd cyllid cenedlaethol ar gyfer y rhaglenni hyn.



Care homes on
twitter June 2019.pdi

1.11 Mae adborth gan ddeintydd ym Mwrdd Iechyd Cwm Taf yn atgyfnerthu'r angen am raglenni effeithiol fel GaB: *Ymwelais â'r cartref hwn yn ddiweddar ac fe'm syfrdanwyd o weld y brwsio gwael - neu ddiffyg ohono - ar gyfer preswylwyr y cartref* (sylw am gartref nad yw'n cymryd rhan yn GaB eto).

1.12 Ceir enghraifft arall o Gymru sy'n dangos effaith gofal geneuol gwael: yn 2018, daeth crwner Gogledd Cymru i'r casgliad bod "hylendid geneuol gwael yn rhannol ar fai am farwolaeth preswlydd o gartref gofal i'r henoed". Rhoddodd y patholegydd yr achos o farwolaeth *fel rhwystr rhannol i'r llwybr anadlol a niwmonia, gyda hylendid gwael y geg yn ffactor cyfrannol*. Cysylltodd y cartref gofal â'r tîm GaB lleol ar ôl hynny ac mae bellach wedi ymroi i gymryd rhan yn y rhaglen.

2. Casglu a darparu data hyd yn hyn

2.1 Cyflwynodd pob GDC yng Nghymru ddata ac adroddiad ansoddol ysgrifenedig byr ar weithgarwch y flwyddyn i Uned Gwybodaeth Iechyd Geneuol Cymru (WOHIU) Prifysgol Caerdydd.

2.2 Mae cyfanswm nifer y cartrefi gofal wedi newid o'r waelodlin wreiddiol o 697 ym mis Ebrill 2015, i 673 yn 2016/17, 657 yn 2017/18 a 650 yn 2018/19. Mae hyn yn adlewyrchu cau neu gyfuno cartrefi gofal.

i) dangosir data wedi'i goladu'n llawn yn Atodiad 1. Ceir crynodeb isod sy'n cynnwys ffigurau'r llynedd mewn cromfachau lle gellir gwneud cymariaethau tebyg am debyg. Mae'n dangos cynnydd a darpariaeth gynyddol ym mhob maes:

- Targedwyd 52.3% (34.9%) o gartrefi gofal i gymryd rhan yn y rhaglen - *capasiti staff yw'r prif ffactor sy'n cyfyngu ar nifer y cartrefi sydd wedi'u targedu*
- Mae 340 o gartrefi wedi'u targedu o gymharu â 229 o gartrefi a dargedwyd y llynedd.
- O blith y cartrefi gofal sydd wedi'u targedu;
 - Mae 287 yn cymryd rhan lawn a 33 yn cymryd rhan yn rhannol. Nid yw 3 cartref wedi dechrau cymryd rhan eto. Penderfynodd 12 o gartrefi beidio â pharhau a thynnwyd 5 yn ôl gan y GDC oherwydd diffyg ymgysylltu.
 - Mae gan 288 (208) bolisi gofal ceg cyfredol.
 - Mae 282 (210) yn gwybod pwy yw'r gwasanaethau deintyddol lleol sydd ar gael i'w preswylwyr.
 - Darparwyd 524 (489) o sesiynau hyfforddi gan staff y GDC i 5,211 (3,510) o aelodau staff cartrefi gofal.
 - Mae 780 (487) o hyrwyddwyr gofal y geg wedi cael eu hyfforddi gan y GDC, ac mae nifer ohonynt bellach yn hyfforddi staff yn y cartrefi gofal lle maen nhw'n gweithio.
 - Mae 10,228 o drigolion yn byw yn y 287 o gartrefi sy'n cymryd rhan lawn. O'r rhain, mae cyfanswm o 5,645 (55%) wedi cael asesiad o'r geg. Y llynedd, cafodd 3,176 o breswylwyr asesiadau o'r geg.
 - Mae gan 5,670 (3,211) o breswylwyr gynllun gofal y geg sy'n cael ei weithredu.
 - Mae 7 o'r cartrefi sy'n cymryd rhan wedi cael arolygiad neu adolygiad allanol sydd wedi amlygu gofal da neu ragorol yn y geg, ac mae 2 arolwg allanol wedi tynnu sylw at ofal annigonol y geg. Mae cartrefi gofal lle nodwyd bod gofal y geg yn annigonol yn cael cymorth ychwanegol gan y GDC, a cheisir sicrwydd gan aseswyr nyrsio lleol.

ii) Staff a gyflogir yn defnyddio cyllid WHC/2015/001

Bwrdd Iechyd	Staff a gyflogir yn defnyddio cyllid WHC/2015/001 (WTE)*	Capasiti staff ychwanegol GDC a ariennir gan y Bwrdd Iechyd (WTE - cyfwerth ag amser cyflawn)*
Abertawe Bro Morgannwg	1.0	Dim (Mehefin 2019: Mae'r bwrdd iechyd yn adrodd bod cyllid ychwanegol wedi'i ddyrannu gan ddefnyddio Cyllid Trawsnewid Cwmtawe i gyflogi therapydd deintyddol a nyrs deintyddol i gynorthwyo gyda chyflawni'r rhaglen)
Aneurin Bevan	1.0	1.2 cyfwerth ag amser cyflawn
Betsi Cadwaladr	2.8 (gan gynnwys 0.2 o therapydd deintyddol)	1.9 cyfwerth ag amser cyflawn
Caerdydd a'r Fro/Cwm Taf (GDC ar y cyd)	1.32	Dim
Hywel Dda	0.8	Yn cael eu cefnogi gan staff hybu iechyd

		geneuol GDC arall fel rhan o dîm integredig sy'n cyflawni'r holl raglenni hybu iechyd y geg
Powys	0.2 (therapydd deintyddol)	Gyda chefnogaeth staff GDC arall yn achlysurol

*Mae'r holl staff yn addysgwyr iechyd y geg/deintyddol oni nodir hynny. Mae gan rai ddyletswyddau ychwanegol yn ogystal â chyflawni'r rhaglen GaB.

2.3 Mae cyllid ar gyfer y rhaglen yn caniatáu i'r GDC gyflogi staff i gynorthwyo i gyflawni'r rhaglen. Yn ystod y flwyddyn, bu staff ar absenoldeb salwch hirdymor, ac mae eraill wedi symud i swyddi newydd. Yn Abertawe Bro Morgannwg symudodd yr unig aelod o staff a oedd yn cyflawni'r rhaglen i rôl newydd ym mis Chwefror 2018 ac ni chafwyd rhywun yn ei le/lle tan fis Tachwedd 2018. O dan yr amgylchiadau hyn, mae'n anodd i staff gyflawni'r rhaglen ac mae cyfarfodydd Grwpiau Gweithredu Lleol yn cael eu gohirio oni bai bod y bwrdd iechyd yn gallu canfod staff eraill i barhau gyda'r gwaith. Mae capasiti staff yn effeithio ar gyflawni'r rhaglen.

3. Adborth

3.1 Cafwyd adborth cadarnhaol ar GaB a hyfforddiant cysylltiedig:

Betsi Cadwaladr

Oddi wrth reolwr cartref gofal:

Bu staff y cartref gofal a minnau yn bresennol ar gyfer hyfforddiant iechyd y geg gyda Hannah.

Hoffwn ganmol Hannah ar ei chyflwyniad a pha mor addysgiadol a phleserus oedd y sesiwn. I ddechrau, roeddwn i'n meddwl na fyddai hyn yn berthnasol i mi, ond rwy'n cyfaddef fy mod yn anghywir gan fy mod hefyd wedi dysgu ac yn teimlo fy mod wedi elwa o'r sesiwn.... gallwn feirniadu'n rhy gyflym a pheidio â rhoi adborth cadarnhaol.

Aneurin Bevan

Mae'r ddogfennaeth Cymru gyfan wedi cael derbyniad da iawn er bod cartrefi Awdurdodau Lleol a chartrefi gofal corfforaethol yn gorfod defnyddio eu dogfennaeth eu hunain

Caerdydd a'r Fro - Hylenydd

Cartref gofal XXX, mae pethau wedi gwella yno – gallwn weld cynlluniau gofal

Hywel Dda

Mae'r tîm yn gweithio gyda'r tîm cymorth cartrefi gofal lleol mewn digwyddiad gan roi sgwrs am GaB.

Powys

Adborth o'r sesiwn hyfforddi

Yn ein hadborth o'n sesiynau ceir canmoliaeth reolaidd o'n staff am eu bod yn *'hawdd mynd atyn nhw'* ac yn *'anfeirniadol'* a bod eu sesiynau'n *'rhyngweithiol iawn'*.

Betsi Cadwaladr

Croesawyd y systemau cofnodi gan y rhan fwyaf o'r cartrefi sy'n cymryd rhan.

4. Effaith y rhaglen

4.1 Fel gydag ymyriadau gofal iechyd eraill, gall fod yn her i fesur canlyniadau. Gwyddom nad yw hyfforddiant staff cartrefi gofal yn unig yn gwella iechyd y geg fel y dangosir gan archwiliadau Hanfodion Gofal ac ymchwil arall, felly mae GaB yn mynd yn llawer pellach na hyfforddiant staff yn unig. Hyd yn hyn (ac yn unol â gofynion y Cylchlythyr Iechyd ar Sicrwydd, Monitro a Gwerthuso) mae'r GDC a chartrefi gofal yn asesu cydymffurfiaeth â phroses a safonau (fel sy'n digwydd gyda rhaglenni gwella ansawdd eraill).

4.2 Er i asesiad clinigol o'r geg "cyn ac ar ôl" y rhaglen gael ei ystyried ar gyfer preswylwyr, mae uwch glinigwyr wedi cynghori y byddai yna anawsterau os byddwn yn gofyn i arweinwyr y rhaglen adolygu glendid cegau pobl hŷn eiddil oherwydd prinder capasiti (yn ychwanegol at y broses sy'n ofynnol gan y rhaglen).

4.3 Mae'r effaith hyd yn hyn yn cynnwys:

- a. Mae'r rhaglen yn cyd-fynd â holl safonau ansawdd NICE ond un ar [hybu iechyd y geg mewn cartrefi gofal](#) (ceisio adborth gan breswylwyr, staff cartrefi gofal a gofalwyr). Mae arweinwyr rhaglenni wedi profi nifer o ffyrdd i geisio'r adborth hwn. Mae pob un yn caniatáu i staff cartrefi gofal, preswylwyr a'u teuluoedd roi adborth yn hawdd ac yn ddienw os yw'n well ganddynt. Mae'r canlyniadau cychwynnol yn cynnwys Prifysgol Betsi Cadwaladr lle'r oedd 22 o ymatebwyr wedi rhoi sylwadau ar y rhaglen - mae croeso mawr i hyn ac mae awgrymiadau wedi'u gwneud ar gyfer ffyrdd syml o'i "wneud yn well fyth".
- b. Adborth cadarnhaol a gwerthusiad o'r hyfforddiant a ddarparwyd, a defnydd helaeth o adnoddau hyfforddi Cymru gyfan, yn enwedig y *Llawlyfr Gwella Gofal y Geg*.
- c. Mae adroddiadau anecdotaidd gan staff cartrefi gofal yn parhau i awgrymu bod gan breswylwyr lai o heintiau ar y frest ac achosion o lindag y geg ers cyflwyno'r rhaglen. Ar hyn o bryd nid oes data cywir i gadarnhau hyn ac mae'n ymddangos y gallai hyn fod yn faes ymchwil posibl. (Ceir tystiolaeth gadarn bod hylendid geneuol effeithiol yn lleihau'r risg o Niwmonia a Ddelir Drwy Beiriant Anadlu, ac mae hylendid geneuol da yn gysylltiedig â lleihau'r risg o Niwmonia a Ddelir yn y Gymuned.)

Mae straeon ac adborth gan breswylwyr, staff cartrefi gofal a'r GDC yn dangos yr effaith:

Aneurin Bevan

Mae un cartref gofal sy'n gwmni corfforaethol wedi rhoi dogfennaeth GaB Cymru gyfan ar waith yn eu cartrefi gofal yng Nghymru ar ôl i'w rheolwyr ddweud bod dogfennaeth y GaB yn well o lawer na'r hyn yr oeddent yn ei ddefnyddio ar hyn o bryd.

Dirprwy Reolwr cartref gofal

"Rydyn ni wedi sylwi ar wahaniaeth mawr ers rhoi dogfennaeth Cymru Gyfan ar waith gan ein bod ni bellach yn edrych ar gegau'r preswylwyr mewn gwirionedd bob mis er mwyn asesu unrhyw newidiadau neu broblemau. Er enghraifft, roedd gan un o'n preswylwyr broblem gyda dant. Roedd wedi mynd yn llac iawn. Roeddem yn gallu galw'r tîm deintyddol perthnasol i helpu gyda hyn. Roedd yn rhaid i'n preswilydd gael tynnu'r dant allan ond roedd yr asesiad yn gymorth i ni sicrhau bod atgyfeiriad amserol yn cael ei wneud"

Gofalwr

'Mae gofal y geg yn yr oedolyn hyn yn aml yn cael ei esgeuluso. Mor braf cael sesiwn hyfforddi ar hyn!'

Therapydd Deintyddol

"Pan fyddaf yn mynd i mewn i'r cartrefi gofal i weld y preswylwyr, mae'r staff gofal yn ymddangos yn llawer mwy brwdfrydig ac yn fwy ymwybodol o'r problemau iechyd geneuol a allai effeithio ar y person y maen nhw'n gofalu amdano ac yn deall pwysigrwydd hylendid geneuol da.

Mae'r staff yn dyfalbarhau â gofal y geg yn hytrach nag ond cofnodi bod y preswilydd yn "gwrthod". Mae'r gofalcwyr yn deall pwysigrwydd rhoi cynnig arall arni. Maen nhw'n dogfennu eu bod wedi mynd yn ôl a cheisio eto ar adeg arall o'r dydd"

Deintydd cymunedol

'Roeddwn yn falch iawn pan wnes i ymweld â chartref gofal xxxx. Tynnodd un o'r gofalcwyr sylw at y ffaith bod asesiad y geg a'r cynllun gofal yn dangos bod preswilydd yn risg uchel gan ei fod ar atchwanegion maethol rhagnodedig ac y byddai angen past dannedd fflworid uchel arno. Mae'r ddogfennaeth yn galluogi staff gofal i adnabod anghenion gofal ceg unigolyn.'

Prifysgol Betsi Cadwaladr

Roedd rheolwr cartref gofal yn cyfleu adborth cadarnhaol iawn gan yr Ymarferydd Deintyddol Cyffredinol ar ôl gwneud archwiliadau.

Dywedodd preswilydd mewn cartref arall ei bod wrth ei bodd â darpariaeth gofal y geg yn y cartref gofal, gan ddweud 'cyn i mi ddod yma, doeddwn i byth yn tynnu fy nannedd gosod o gwbl ond ers i mi fod yma, maen nhw'n cael eu tynnu allan bob dydd a'u glanhau a'u rhoi mewn pot dros nos. Mae fy wyrion ac wyresau nawr yn ymweld â mi ac yn eistedd ar fy nglin ac yn dweud wrtha i nad yw fy ngheg yn drewi mwyach.'

Roedd nyrs gofrestredig mewn cartref nyrsio yn falch o fod wedi cyfeirio rhai o'r preswylwyr yn llwyddiannus at y deintydd lle'r oedd angen triniaeth. 'Doedd un preswlydd yn benodol ddim yn bwyta nac yn yfed ond yn methu â chyfleu pam. Mae hi bellach wedi cael rhai dannedd wedi'u tynnu ac mae bellach nôl yn hapus fel cynt.

Cwm Taf

E-bost gan aelod o staff GDC Caerdydd a'r Fro am Gartref Gofal yng Nghwm Taf.

Roedd fy mam-yng-nghyfraith yn byw yn XXXX am oddeutu 6 mis. Roedd lefel y gofal a dderbyniodd drwy gydol ei harhosiad wedi creu argraff arnaf. Roedd hyn yn cynnwys ei gofal geneuol gan roi sylw i'r ffaith bod ganddi lawer o'i dannedd ei hun a dannedd gosod rhannol. Roedd triniaeth ddeintyddol yn cael ei gynnig hefyd gan Ddeintydd a oedd yn ymweld.

Roedd ei gofal diwedd oes yn rhagorol a hyd yn oed mor hwyr â hyn roedd y staff yn sicrhau bod ei cheg yn lân ac yn rhydd o unrhyw beth a allai achosi poen neu ddioddefaint pellach.

5. Enghreifftiau o arfer da / arloesol

5.1 Fel gyda'r Cynllun Gwên, caiff Gwên am Byth ei harwain a'i chyflwyno'n bennaf gan Weithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol yn unol â gofal iechyd darbodus. Bydd y rhaglen yn helpu i gyflwyno Cymru Iachach: Ymateb y Gwasanaethau Deintyddol ac Iechyd y Geg <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/ymateb-gwasanaethau-deintyddol-ac-iechyd-y-geg.pdf> a cheir cydweithio effeithiol ar draws y byrddau iechyd.

5.2 Mae enghreifftiau pellach wedi dod i'r amlwg eleni:

- Mae'r dull asesu gofal y geg wedi'i ddatblygu, ei ddilysu a'i gyflwyno.
- Datblygwyd a chyflwynwyd dull sicrhau ansawdd i gefnogi cyflwyno rhaglenni'n ddiogel ac yn effeithiol ym mhob bwrdd iechyd.
- Mae staff cartrefi gofal yn dechrau cyfeirio preswylwyr yn briodol at y tîm deintyddol yn hytrach na meddyg teulu.
- Integreiddio gyda gweithwyr proffesiynol eraill ym maes iechyd a gofal cymdeithasol a chyswllt ag Arolygiaeth Gofal Cymru.
- Roedd staff cartrefi gofal yn mentora ac yn "cyfeillio" hyd nes eu bod yn hyderus i asesu preswylwyr a darparu gofal.
- Mae Grwpiau Gweithredu Lleol (GGLlau) yn gweithio'n dda mewn 5 Bwrdd Iechyd gyda chynrychiolaeth o broffesiynau a sefydliadau gwahanol. Mae timau GaB sydd â GGLlau effeithiol yn cynghori'r rhai lle mae'r grŵp yn llai effeithiol.
- Rhannu ein harferion da â rhaglen debyg yn Lloegr (Mouth care Matters) a dysgu oddi wrthyn nhw – e.e. ffyrdd ymarferol o ddelio â secretiadau gludiog yn y geg.
- Ochr yn ochr â'r sawl sy'n arwain Mouth care Matters, paratowyd ymateb manwl i Ganllawiau Gofal Dannedd Gosod Sefydliad Iechyd y Geg. Roedd yr ymateb yn

amlygu'r risg i bobl sy'n agored i niwed (fel preswylwyr cartrefi gofal) o yfed hylif glanhau dannedd gosod a'r angen i ochel rhag hyn.

Canllawiau a Safonau NICE

5.3 Mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) wedi penodi hwylusydd gweithredu NICE ar gyfer Cymru yn ddiweddar (Julie Vile). Cynhaliwyd cyfarfod i drafod gweithredu safonau a chanllawiau NICE mewn perthynas â gwasanaethau deintyddol ac iechyd y geg. Disgrifiwyd y rhaglen GaB: Croesawodd cydweithwyr NICE y rhaglen a chydabuwyd y gwaith sy'n mynd rhagddo yng Nghymru i fodloni canllawiau NICE. Nododd NICE eu gwaith gyda'r CQC i dynnu sylw at bwysigrwydd gofal y geg i breswylwyr mewn cartrefi gofal.

Yr adnodd GaB ac offer a ddilyswyd

5.4 Mae Cymru wedi tynnu ar brofiad o'r rhaglen *Caring for Smiles* yn yr Alban lle'r oedd y clinigydd arweiniol wedi tynnu sylw at werth adnodd addysgu sy'n seiliedig ar dystiolaeth i'w ddefnyddio mewn cartrefi gofal.

5.5 Mae *Caring for Smiles* yn defnyddio adnodd hyfforddi ar draws yr Alban i gyd y mae staff cartrefi gofal wedi'i ganfod yn werthfawr iawn. Roedd *Caring for Smiles* yn hael wrth ganiatáu i Gwên am Byth ddefnyddio eu hadnodd yn sail i adnodd tebyg ar gyfer Cymru.

5.6 Datblygwyd adnodd cenedlaethol Cymru gan dimau GaB a oedd yn gweithio'n agos gyda staff cartrefi gofal. Cafwyd arweiniad ar gyfer ei ddatblygiad gan ymgynghorwyr / arbenigwyr i sicrhau ei fod yn hyrwyddo gofal sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Darparwyd cyllid gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i'w cyhoeddi – yn Saesneg i ddechrau, er y bydd yn cael ei gyfieithu a'i ddarparu yn Gymraeg ar ôl i staff cartrefi gofal gael cyfle i'w ddefnyddio a darparu unrhyw sylwadau/adborth terfynol.

5.7 Bydd y rhaglen yn defnyddio offeryn asesu'r geg wedi'i ddilysu. Pan ddechreuodd GaB, dim ond un offeryn wedi'i ddilysu oedd ar gael yn rhwydd ar gyfer asesu cegau preswylwyr cartrefi gofal: Offeryn Asesu Iechyd y Geg, Sefydliad Iechyd a Lles Awstralia, (2009). Mae'r offeryn hwn wedi'i gynnwys yng nghanllawiau NICE *Oral health for adults in care homes*, Gorffennaf 2016.

5.8 Gan ddefnyddio proses ddilysu gadarn dan arweiniad Uned Gwybodaeth Iechyd Geneuol Cymru a Phrifysgol Caerdydd, mae tîm GaB wedi gweithio'n agos gyda staff cartrefi gofal a gweithwyr proffesiynol eraill ym maes gofal iechyd i ddatblygu a dilysu offeryn asesu gofal ceg Cymru gyfan. Mae defnyddio'r offeryn yn arwain at gynllun gofal unigol sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer y preswlydd.

5.9 Cymerodd y broses ddilysu fwy o amser na'r disgwyl, ac roedd profi'r offer yn ystod cylchoedd Cynllunio-Gwneud-Astudio-Gweithredu (PDSA) yn ychwanegu at y gwaith oedd ei angen ar gyfer timau GaB a'r cartrefi gofal hynny lle'r oedd staff wedi cytuno i brofi'r offer. Awgrymodd adborth gan dimau GaB y gallai'r broses o brofi ac addasu'r offer fod wedi peri i rai staff cartrefi gofal feddwl bod y broses "yn

gymhleth". Fodd bynnag, mae'r pecyn terfynol bellach ar gael ac fe gafodd dderbyniad da gan staff cartrefi gofal.

6. Newid Agweddau a Gwella Ymarfer

6.1 Mae adroddiadau GDC yn disgrifio sut mae staff cartrefi gofal yn ymateb i'r rhaglen:

Powys

Cafodd ein dyfalbarhad a'n gwaith caled ei gydnabod mewn cartref lle'r oeddem, yn y lle cyntaf, wedi cael trafferth i'w perswadio i ymuno â'r rhaglen. *Diolchodd teulu preswlydd i staff y cartref gofal am yr ymdrechion a wneir i lanhau dannedd gosod eu mam. Yna, diolchodd staff y cartref gofal i ni am ddangos iddynt sut orau i lanhau'r dannedd gosod ac am egluro'r pwysigrwydd nid yn unig o ran hylendid geneuol gwell ond hefyd o ran cysur cleifion.*

Aneurin Bevan

Mae rheolwyr a staff y cartrefi gofal yn cymryd rhan ac mae llawer ohonynt yn cysylltu â thîm Hyrwyddo Iechyd y Geg i ofyn am gael cymryd rhan yn rhaglen gwella gofal y geg

'Mae'r hyfforddiant hefyd wedi bod yn fuddiol iawn i'n tîm o ofalwyr. Mae wedi eu gwneud yn fwy ymwybodol o bwysigrwydd gofal y geg a'r rôl sydd ganddynt o ran gallu darparu/helpu gyda hyn.'

Abertawe Bro Morgannwg

"Mae hyfforddiant gofal ceg lliniarol yn cael ei ddarparu gan Wasanaeth Deintyddol Cymunedol Bwrdd Iechyd Prifysgol ABM ac mae hyn yn codi proffil Gwên am Byth sy'n helpu staff cartrefi gofal i ymateb yn dda i'r rhaglen."

Betsi Cadwaladr

Roedd cartref gofal ar fin gadael y rhaglen oherwydd diffyg cefnogaeth i hyrwyddwyr gofal y geg. Aethpwyd ati mewn ffordd newydd a barodd i'r cartref gael cymhareb o 1 hyrwyddwr i bob 10 preswlydd. Mae'r Staff Gofal wedi cael amser gwarantedig ar gyfer GaB ac maent bellach yn cael cefnogaeth lawn gan y rheolwyr. Mae'r cartref bellach yn gwneud yn arbennig o dda ac mae wedi cael sylw yn adroddiad Mis Gwên Genedlaethol gan dîm cyfathrebu BIPBC.

Mae gan staff cartrefi gofal well ymwybyddiaeth o ba mor hanfodol yw gofal y geg i iechyd cyffredinol preswylwyr ac mae hyn yn sbardun cadarnhaol i wella'r nifer sy'n mynd i gartrefi.

Mae hyfforddiant wedi cael effaith fuddiol ar staff y cartref gofal. Maen nhw'n adrodd bod ganddynt wybodaeth ac ymwybyddiaeth gynyddol o'u hiechyd geneuol eu hunain ac mae hyn wedyn yn ymestyn i'r preswylwyr.

7. Rhwystrau i weithredu

7.1 Nodwyd rhwystrau i weithredu o'r cychwyn ac mae staff y GDC wedi gweithio gydag aelodau grwpiau gweithredu lleol, arweinwyr nyrsio ac Arolygiaeth Gofal Cymru i nodi ffyrdd o oresgyn rhwystrau. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion mae'r heriau i gyflawni'n parhau:

- staff yn gweithio shiftiau a salwch;
- staff sydd â defnydd cyfyngedig o'r iaith Saesneg;
- cyfraddau trosiant uchel ymysg y staff;
- canslo sesiynau hyfforddi ar y funud olaf;
- dim digon o amser i ofalu am y geg yn effeithiol ar gyfer preswylwyr ag ymddygiad heriol;
- Dosberthir rhestrau adnoddau gofal ceg ond mae cartrefi gofal weithiau'n methu prynu adnoddau di-bresgripsiwn hanfodol megis past dannedd â llai o ewyn; a
- chasglu data – nid yw staff mewn cartrefi gofal bob amser yn deall pwysigrwydd casglu data er gwaethaf esboniadau ailadroddus. E.E. Cofnodion hyfforddiant: Mae rheolwyr yn adrodd ar lafar bod staff cartrefi gofal wedi derbyn hyfforddiant sefydlu neu hyfforddi mewn swydd, ond yn aml nid yw hyn yn cael ei gofnodi.

7.2 Cadarnhawyd y materion hyn gan Reolwr Cartref Gofal a fynychodd gyfarfod y Grŵp Cynghori Cenedlaethol ym mis Mai 2019. Dywedodd wrth yr aelodau fod y rhaglen yn werthfawr iawn ac yn cael ei chroesawu gan gartrefi gofal ond y gall lefelau staffio a newidiadau fod yn her o ran darparu pob agwedd ar ofal i breswylwyr.

7.3 Fel rhan o'i thraethawd estynedig blwyddyn olaf wrth astudio llawdriniaeth ddeintyddol ym Mhrifysgol Caerdydd, cynhaliodd Rystal Dib astudiaeth beilot er mwyn gwneud Gwerthusiad Ansoddol o GaB. Cynhaliodd Rystal 3 cyfweiliad lled-strwythuredig mewn 3 Bwrdd Iechyd gyda 5 aelod o staff y GDC (cymysgedd o staff rheoli a gweithredol). Datgelodd y cyfweiliadau heriau o ran cyflawni'r rhaglen (yn gyson â'r rhai a nodwyd yn adran 7) yn ogystal â'i gwerth. Rhannwyd y canlyniadau â'r Grŵp Cynghori Cenedlaethol.

7.4 Ar hyn o bryd mae rhai cartrefi yn defnyddio ffurflenni asesu copi caled tra bod eraill yn defnyddio systemau electronig ar gyfer eu holl brosesau asesu ac maent wedi gosod asesiad gofal y geg a chynlluniau gofal ar y rheini. Fodd bynnag, mae amrywiaeth o systemau electronig yn cael eu defnyddio felly ni fu'n bosibl hyd yma i sicrhau bod adnoddau GaB ar bob system.

8. Capasiti i ddarparu ac ehangu nifer y cartrefi sy'n cymryd rhan

8.1 Mae'r data yn dangos bod 52.3% o gartrefi wedi'u targedu yn ystod 2018/19, a bod 320 o gartrefi yn cymryd rhan yn y rhaglen naill ai'n llawn neu'n rhannol. Mae hyn yn fwy na'r llynedd ond mae timau GaB yn nodi capasiti staff fel y prif ffactorau sy'n cyfyngu ar ehangu'r rhaglen.

8.2 Crybwyllodd 5 GDC gapasiti staff yn eu hadroddiadau ac mae wedi cael ei drafod yn y Grŵp Cynghori Cenedlaethol. Mae'n amlwg y bydd capasiti staff yn ffactor allweddol wrth ymestyn y rhaglen ymhellach.

8.3 Mae profiad o beilot Gwynedd yn Betsi Cadwaladr wedi dangos mai rhwng 30 a 35 o gartrefi yw uchafswm nifer y cartrefi gofal sy'n ddichonadwy fesul addysgwr iechyd deintyddol. Bydd y nifer hwn yn llai ar gyfer gweithwyr rhan amser.

8.4 Mae'r adroddiad gan Fwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg (Bae Abertawe bellach) yn dangos y bu'r swydd ar gyfer yr unigolyn sy'n gyfrifol am ddarparu'r rhaglen yn wag rhwng Chwefror 2018 a Tachwedd 2018. Cafodd hyn effaith andwyol ar gyflawni'r rhaglen: er mwyn bod yn gynaliadwy, yn ddelfrydol mae'r rhaglen yn gofyn bod mwy nag un aelod o staff yn ymwneud â'i chyflawni.

Mae data yn awgrymu bod y gwaith o gyflwyno rhaglenni yn fwy effeithiol a chynaliadwy lle mae byrddau iechyd wedi gwneud buddsoddiad ychwanegol o ran capasiti staff.

8.5 Mae'r data a'r adroddiadau ansoddol yn awgrymu nad yw'r rhaglen yn debygol o gyrraedd mwy na 50% o gartrefi gofal os yw capasiti staff yn parhau fel y mae.

9. Amserlen ar gyfer cyflawni

9.1 Roedd WHC/2015/001 yn nodi amserlen sy'n gyson â'r Cynllun Cenedlaethol ar gyfer lechyd y Geg, 2013 – 2018 *"Nid ydym yn disgwyl i bob cartref gofal weithredu'r rhaglen ar unwaith, ond dylai pob cartref gofal fod yn cymryd rhan erbyn 2018 wrth i'r byrddau iechyd gyflawni eu Cynlluniau Lleol ar gyfer lechyd y Geg."*

9.2 Fel y nodwyd mewn adroddiadau blaenorol, rydym wedi ymestyn yr amserlen i 2020. Mae profiad y 4 blynedd cyntaf yn awgrymu ei bod yn bosibl nad yw'r amserlen estynedig hon yn realistig ar gyfer y gwaith cymhleth ac ymestynnol hwn, yn enwedig yng ngoleuni sylwadau am gapasiti staff fel y nodwyd uchod. Tynnodd GaB ar brofiad yn y GDC a Caring for Smiles yn yr Alban, ond er mwyn darparu gwelliant go iawn, roedd angen iddi wneud mwy na dim ond hyfforddi staff cartrefi gofal.

9.3 Mae'n galonogol gweld nifer o fyrddau iechyd yn defnyddio'r gweithlu ac adnoddau ariannol ychwanegol i gefnogi'r gwaith o weithredu a chyflawni'r rhaglen. Er mwyn helpu i sicrhau bod y rhaglen yn bodloni'r amserlenni disgwyledig ac i sicrhau capasiti staff, cyflwynodd Llywodraeth Cymru gyfyngiad ar gyllid Gwên am Byth o 2019-20 ar gyfer pob Bwrdd Iechyd, yn debyg i'r un a oedd ar waith ar gyfer y rhaglen Cynllun Gwên.

10. Y Camau Nesaf

10.1 Ar ddechrau'r rhaglen cafodd gwefan ei sefydlu a'i chynnal gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i gefnogi darpariaeth a rhannu arfer da a dysgu. Ar hyn o bryd, dim ond yn Saesneg mae'r wefan ar gael, ond y polisi yw ei bod yn rhaid iddi fod ar gael yn ddwyieithog.

<http://www.wales.nhs.uk/improvingoralhealthforolderpeoplelivingincarehomesinwales>

Mae'r wefan hon hefyd yn cynnwys canllaw.

Er mwyn rhannu'r gwaith yn eang, mae'r Grŵp Cyngori Cenedlaethol yn gweithio gyda Chymdeithas Gerontoleg Prydain i ystyried cynnwys y rhaglen ar ei gwefan.

10.2 Yn 2017, cyflwynodd Gofal Cymdeithasol Cymru Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Bydd hyn yn cael ei ddefnyddio fel rhan o'r hyfforddiant ar gyfer staff cartrefi gofal. Mae cydweithwyr GDC wedi croesawu hyn ac yn falch o nodi ei fod yn cynnwys adran ar ofal y geg. Fodd bynnag, nid yw'r Fframwaith Sefydlu yn cynnwys gwybodaeth am sut i asesu darpariaeth effeithiol ac a yw aelod staff y cartref gofal wedi cyflawni'r cymwyseddau angenrheidiol.

Mae arweinwyr rhaglen GaB yn datblygu pecyn i ategu'r Fframwaith ac yn cefnogi staff cartrefi gofal i gyflawni'r cymwyseddau craidd.

10.3 Mae cartrefi gofal yn defnyddio staff asiantaeth – mae arweinwyr rhaglenni'n datblygu rhaglen hyfforddi ar gyfer asiantaethau fel bod gan eu staff ddealltwriaeth o'r rhaglen iechyd y geg. Mae'r *Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol* (Gofal Cymdeithasol Cymru, 2017) yn nodi canlyniadau dysgu ar gyfer gofalcwyr sy'n ymuno â'r sector gofal cymdeithasol, sefydliad newydd neu sy'n ymgymryd â rôl newydd fel gofalcwr. Mae hyn yn cynnwys gofalcwyr sy'n gweithio i asiantaethau staff cartref a staff banc. Mae'r fframwaith yn nodi'r llwybrau addysgol sydd â'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar ofalcwyr i ymarfer yn ddiogel. Mae'n darparu strwythur ar gyfer cyfnod sefydlu cyffredin mewn iechyd a gofal cymdeithasol ledled Cymru ac yn amlinellu'r wybodaeth a'r sgiliau y mae angen i ofalcwyr newydd eu hennill yn ystod chwe mis cyntaf eu cyflogaeth. Mae'r rhaglen gynefino'n cynnwys gofal iechyd geneuol ac mae arweinwyr y rhaglenni wrthi'n datblygu rhaglen hyfforddi i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r fframwaith.

10.4 Cysylltiadau â thimau Gwasanaeth Deintyddol Cyffredinol - ar hyn o bryd mae'r cynllun GaB yn cael ei ddarparu gan GDC yng Nghymru. Fodd bynnag, gyda 4 blynedd o brofiad o gyflawni, mae'n amserol ystyried sut y gall timau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol ddod yn rhan o'r rhaglen a chefnogi ei nodau. Mae timau GaB yn adrodd adborth da gan dimau'r Gwasanaeth Deintyddol Cyffredinol ar yr adnoddau sydd ar gael iddynt (Gwella Gofal y Geg i bobl mewn Lleoliadau Iechyd a Gofal yng Nghymru, 2016) ac mae ganddynt ddiddordeb mewn darparu rhaglenni'n lleol. Mae gan lawer o dimau Gwasanaeth Deintyddol Cyffredinol rai cysylltiadau â chartrefi gofal lleol ac mae'n bwysig sicrhau dull cyson sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae darpariaeth gofal cartref yn parhau'n gyfyngedig mewn rhai byrddau iechyd ond mae eraill (Aneurin Bevan yn arbennig) wedi buddsoddi yn y gwasanaethau hyn gan gynnwys cyflogi gweithiwr Gofal Deintyddol Proffesiynol fel Ymarferydd Gwella Iechyd y Geg i gefnogi gwasanaeth gofal cartref y Gwasanaeth Deintyddol Cyffredinol.

Fel gydag ailffocysu'r Cynllun Gwên, mae ymgysylltiad â'r Gwasanaeth Deintyddol Cyffredinol yn debygol o gynnwys:

- Datblygu adnoddau hyfforddi a chysiau ar gyfer timau'r Gwasanaeth Deintyddol Cyffredinol.
- Cyswllt gweithredol ar draws timau lleol GaB personol a thimau'r Gwasanaeth Deintyddol Cyffredinol sy'n ymweld â chartrefi gofal.
- Arweinyddiaeth byrddau iechyd (a buddsoddiad posibl) mewn gwasanaethau gofal cartref ar gyfer preswylwyr cartrefi gofal a charfan o bobl hŷn sy'n agored i niwed sydd mewn gofal yn y cartref.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cysylltu â'r GDC a'r byrddau iechyd dros y flwyddyn nesaf i ystyried y ffordd orau o fwrw ymlaen â hyn.

10.5 Adnodd wedi'i gymeradwyo gan NICE. Yn y cyfarfod gyda Hwylusydd Gweithredu NICE, esboniodd fod NICE yn cymeradwyo offer sy'n cynorthwyo sefydliadau i gydymffurfio â chanllawiau NICE mewn ffordd ddiogel, effeithlon ac effeithiol. Mae'r Grŵp Cyngori Cenedlaethol wedi awgrymu y dylid cyflwyno'r offeryn asesu wedi'i ddilysu i NICE i ddod yn offeryn a gymeradwyir. Mae cynlluniau ar y gweill i ddatblygu hyn

11. Arolygiadau allanol a chymorth gan Arolygiaeth Gofal Cymru.

Mae arolygwyr yn nodi gofal y geg yn gynyddol ac rydym yn gobeithio y bydd hyn yn parhau i wella safonau.

Ymhlith yr enghreifftiau o weithio ar y cyd ac ymatebion gan AGC, awdurdodau lleol a sefydliadau eraill mae:

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Mae gennym gysylltiadau cryf â chontractau'r awdurdod lleol a thimau monitro ac rydym yn cyfathrebu'n rheolaidd ynglŷn â GaB. Mae'r swyddogion monitro yn sicrhau bod yna ffocws ar ofal y geg yn ystod arolygiadau. Bydd gan gontract newydd BIPAB ar gyfer cartrefi gofal adran ar ddarparu gofal y geg i bob preswlydd. Ceir tystiolaeth anecdotaidd bod gofal y geg yn esblygu i fod yn faes arolygu manylach gan arolygwyr trydydd parti megis AGC a monitro contract, yn hytrach na bod yn "flwch ticio" yn unig yn yr adran gofal personol.

Cwm Taf

Arolygiad AGC – Dywedodd yr arolygydd fod hylendid y geg yn y cartref wedi creu argraff fawr arno/arni (xxxx).

Hywel Dda

... mae Arweinydd Atal Heintiau'r bwrdd iechyd ar hyn o bryd yn archwilio effeithiau'r rhaglen mewn rhai o'r cartrefi sy'n cymryd rhan; Gobeithio y bydd hyn yn rhoi rhywfaint o ddata ystyrlon i ni am ganlyniadau.

Nid yw 10 cartref wedi ymgysylltu er bod ymdrechion wedi'u gwneud i'w denu i'r cynllun. Mae gan y tîm GaB gysylltiadau cryf â'r tîm cefnogi cartrefi gofal ac mae ein trafodaethau wedi cadarnhau bod rhai o'r 10 cartref hynny'n methu mewn meysydd gofal eraill.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Ymateb i gyflwyniad ar GaB - Adborth gan yr Uwch Reolwr Gwella, Gwella 1000 o Fywydau:

“Roeddwn i eisiau rhoi gwybod i chi am yr adborth o'ch cyflwyniad.... roedd yn llawn gwybodaeth o ran amlygu pwysigrwydd gofal y geg. Yn dilyn eich cyflwyniad, rydym yn gobeithio ymchwilio ymhellach i'r posibilïadau o sicrhau y darperir past dannedd fflworid (uchel) trwy bresgripsiwn i bobl sydd wedi cael diagnosis o ddementia, naill ai drwy ddatblygu safon o gwmpas hyn neu ei ystyried o fewn archwiliadau iechyd blynyddol meddygon teulu.”

12. Arddangos y rhaglen



Mae Maria Morgan yn rhoi sgwrs ar *Faeth ac iechyd y geg ar gyfer oedolion hŷn* i 10 o ôl-raddedigion deintyddol ym Mhrifysgol Chiangmai (drwy Skype) ar gyfer Dr Patcharawan Srisilapanan (Pat). Ar gais Llywodraeth Gwlad Thai mae Pat yn sefydlu'r rhaglen gyntaf yng Ngwlad Thai ar ofal deintyddol i bobl hŷn (Gerontoleg).

Meddai Maria "Mae'n dda ein bod yn lledaenu arferion da y tu allan i Gymru!"

Ysgrifennodd Pat i ddweud -

“Diolch yn fawr iawn am y ddarlith heddiw. Roedd gan y myfyrwyr ddiddordeb mawr ynddi a roeddent yn gallu deall ystyr maeth mewn ffordd mwy holistig.

Cafodd y cysylltiad arloesol cyntaf hwn rhwng Gwlad Thai a Chymru gryn argraff ar yr holl gyfadrannau.

Diolch yn fawr am eich gwaith caled yn paratoi darlith mor wych.”

Cydnabyddiaethau

Hoffai Llywodraeth Cymru gydnabod:

- Ymrwymiad a medrusrwydd pawb sy'n cyflwyno'r rhaglen, yn enwedig staff cartrefi gofal, y GDC, timau nyrsys byrddau iechyd a rhanddeiliaid eraill.
- Arweinydd clinigol Caring for Smiles am ganiatâd i ddefnyddio'u hadnodd hyfforddi.
- Gwella Gwasanaethau 1000 o Fywydau ac Iechyd Cyhoeddus Cymru am ariannu'r broses o argraffu'r adnodd cenedlaethol a chefnogi ei ddatblygiad.
- Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr am ganiatâd i ddefnyddio *Gwên am Byth*.
- Maria Morgan, WOHIU, am goladu a chyflwyno data, a chefnogi'r broses ddilysu.
- Ilona Johnson, Uwch Ddarlithydd Clinigol ac Ymgynghorydd Anrhydeddus mewn Iechyd Cyhoeddus Deintyddol, Ysgol Ddeintyddol Prifysgol Caerdydd, am gynghori ar y broses ddilysu a'i chefnogi.
- Aelodau o'r Grŵp Cynghori Cenedlaethol a Grwpiau Gweithredu Lleol.

Lisa Howells
Cadeirydd y Grŵp Cynghori Cenedlaethol

Atodiad 1


TABLAU a FFIGURAU MONITRO CARTREFI GOFAL 2018/19

Tabl 1 TARGEDU

	O'r cartrefi sydd wedi'u targedu, faint ohonyn nhw sy'n:								
BILI	Cyfanswm nifer y cartrefi yn y BILI fel ar 1af Ebrill 2015	Cyfanswm nifer y cartrefi sydd wedi'u targedu ar gyfer y rhaglen	Cymryd rhan llawn ym mhob agwedd ar y rhaglen	Yn cymryd rhan yn rhannol*	Cartref gofal wedi penderfynu peidio â pharhau â'r rhaglen	Arweinydd GDC wedi tynnu'n ôl o'r cartref gofal oherwydd diffyg ymgysylltu	% WEDI'U TARGEDU (Enwadur = pob cartref)	% sy'n cymryd rhan yn llawn ac yn rhannol fel % o'r holl gartrefi	% sy'n cymryd rhan yn llawn ac yn rhannol fel % o'r cartrefi a dargedir
Abertawe BM	104	41	32	0	2	0	39.4	30.8	78.0
Aneurin Bevan	95	74	72	2	0	0	77.9	77.9	100.0
Betsi Cadwaladr	205	110	101	9	2	1	53.7	53.7	100.0
Caerdydd a'r Fro	63	35	35	0	0	0	55.6	55.6	100.0
Cwm Taf	50	26	26	1	0	0	52.0	54.0	103.8
Hywel Dda	97	42	12	20	7	3	43.3	33.0	76.2
Powys	36	12	9	1	1	1	33.3	27.8	83.3
CYMRU	650	340	287	33	12	5	52.3	49.2	94.1

**Mae cyfanswm nifer y cartrefi wedi lleihau o 7 rhwng 2017/18 a 2018/19 am fod cartrefi wedi cau*


Ffigur 1 Nifer y cartrefi gofal i bobl hŷn a'r nifer a dargedwyd gan y BILI a Chymru, 2018/19




Tabl 2 cartrefi sy'n cymryd rhan yn y rhaglen ers 2015/16 hyd 2018/19

	YN LLAWN			YN RHANNOL			Wedi penderfynu peidio â pharhau		
	2017	2018	2019	2017	2018	2019	2017	2018	2019
Abertawe BM	15	26	32	0	11	0	0		2
Aneurin Bevan	17	21	72	0	27	2	0	1	0
Betsi Cadwaladr	19	54	101	0	8	9	0		2
Caerdydd a'r Fro	0	29	35	21	3	0	0		0
Cwm Taf	0	21	26	18	0	1	0		0
Hywel Dda	12	14	12	4	4	20	0		7
Powys	4	5	9	0	2	1	1	2	1
CYMRU	67	170	287	43	55	33	1	3	12

Ffigur 2 Cartrefi sy'n cymryd rhan yn y rhaglen, yn ôl lefel cyfranogiad, 2018/19



Ffigur 3 Nifer y cartrefi sy'n cymryd rhan yn y rhaglen ledled Cymru, 2015/16 – 2018/19 (yn ôl graddau'r cyfranogiad)



Tabl 3 Cartrefi gofal â pholisïau gofal y geg cyfoes a'r rhai sy'n gallu dweud pwy yw eu gwasanaethau deintyddol lleol

			Nifer		Canran (yn seiliedig ar yr holl gartrefi)		Canran (yn seiliedig ar gartrefi a dargedwyd)	
	Cyfanswm nifer y cartrefi ar 1 Ebrill 2015	Y niferoedd a dargedwyd	Y nifer sydd â pholisï gofal ceg cyfoes	Nifer y cartrefi sy'n gallu dweud pwy yw eu gwasanaethau deintyddol lleol	% sydd â pholisï gofal ceg cyfoes	% y cartrefi sy'n gallu dweud pwy yw eu gwasanaethau deintyddol lleol	% sydd â pholisï gofal ceg cyfoes	% y cartrefi sy'n gallu dweud pwy yw eu gwasanaethau deintyddol lleol
Abertawe BM	104	41	32	26	31%	25%	78%	63%
Aneurin Bevan	95	74	72	72	76%	76%	97%	97%
Betsi Cadwaladr	205	110	101	101	49%	49%	92%	92%
Caerdydd a'r Fro	63	35	35	35	56%	56%	100%	100%
Cwm Taf	50	26	26	26	52%	52%	100%	100%
Hywel Dda	97	42	12	12	12%	12%	29%	29%
Powys	36	12	10	10	28%	28%	83%	83%
CYMRU	650	340	288	282	44%	43%	85%	83%

Tabl 4 Arolygiadau


BILI	Sawl un sydd wedi cael arolygiad neu adolygiad allanol yn ystod y cyfnod adrodd a dynnodd sylw at ofal ceg da/ardderchog?	Sawl un sydd wedi cael arolygiad neu adolygiad allanol yn ystod y cyfnod adrodd sydd wedi tynnu sylw at ofal ceg annigonol?
Abertawe BM	2	0
Aneurin Bevan	2	2
Betsi Cadwaladr	0	0
Caerdydd a'r Fro	0	0
Cwm Taf	2	0
Hywel Dda	1	0
Powys	0	0
CYMRU	7	2

STAFF CARTREFI GOFAL

Tabl 5 Hyfforddiant

	Nifer y staff iechyd a gofal sy'n gymwys i gael hyfforddiant	Hyrwyddwyr iechyd y geg (HlyG) wedi'u hyfforddi (gan y GDC)	Nifer y staff gofal iechyd sydd wedi'u hyfforddi gan y gwasanaethau deintyddol cymunedol (heb gynnwys HlyG)	Nifer y staff a hyfforddwyd yn uniongyrchol gan HlyG	Nifer y sesiynau hyfforddiant a roddwyd i staff cartrefi gofal gan y tîm deintyddol
Abertawe BM	1103	256	307	271	26
Aneurin Bevan	1994	55	1487	0	183
Betsi Cadwaladr	2809	290	1213	0	157
Caerdydd a'r Fro	1487	36	911	0	35
Cwm Taf	1222	75	1033	0	46
Hywel Dda	444	63	196	56	63
Powys	274	5	64	9	14
CYMRU - 2019	9333	780	5211	336	524
CYMRU - 2018	7173	487	3510	328	489
CYMRU - 2017	4600	209	1892	73	290
CYMRU - 2016	4020	50	1338	0	121

Ffigur 4 Hyfforddiant yn 2018/19 o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol



PRESWYLLWYR CARTREFI GOFAL

Tabl 6 Asesiadau a chynlluniau gofal Preswylwyr Cartrefi Gofal

	PRESWYLLWYR CARTREFI GOFAL mewn cartrefi sy'n cyfranogi'n llawn			
BILL	Cyfanswm nifer y preswylwyr	Cyfanswm nifer y preswylwyr y gwnaed asesiad risg ar eu cyfer	Cyfanswm nifer y preswylwyr sydd â chynllun gofal ceg	Cyfanswm nifer y preswylwyr y mae eu cynllun gofal ceg wedi'i gyflawni
Abertawe BM	1340	1082	1107	1107
Aneurin Bevan	2444	2195	2195	2195
Betsi Cadwaladr	2905	1260	1260	1260
Caerdydd a'r Fro	1707	30	30	30
Cwm Taf	1073	577	577	577
Hywel Dda	453	315	315	315
Powys	306	186	186	186
CYMRU - 2019	10228	5645	5670	5670
CYMRU - 2018	5983	3176	3211	3211
CYMRU - 2017	4082	1308	1349	1349
CYMRU - 2016	3723	110	133	133

Ffigur 5 Asesiadau a chynlluniau gofal Preswylwyr Cartrefi Gofal

